

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Neat Teeth Orthodontics

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad arolygu: 25 Mehefin 2019

Dyddiad cyhoeddi: 26 Medi 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	23
4.	Beth nesaf?	27
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	29
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	30
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Neat Teeth Orthodontics yn Heol Lamberts, Glannau SA1, Abertawe, SA1 8EL, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar 25 Mehefin 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Neat Teeth Orthodontics yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd gan y practis lefelau da o gyfarpar a chyfleusterau modern a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd cleifion y practis yn fodlon iawn ar y gofal y maent yn ei gael ac roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael cymorth da. Gwnaethom nodi rhai meysydd lle mae angen i'r practis gryfhau'r trefniadau llywodraethu.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Practis hynod broffesiynol a modern
- Lefelau da iawn o foddhad cleifion
- Deintyddfeydd glân, taclus a threfnus
- Trefniadau ar gyfer rheoli achosion o groes-heintio
- Trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus, eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da a'u bod yn ymfalchïo yn eu swyddi.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos y broses gwyno ar gyfer cleifion preifat yn glir
- Cofnodi gwybodaeth ychwanegol yn nodiadau'r cleifion, er enghraifft hanes meddygol parhaus
- Cyflwyno archwiliadau ychwanegol, er enghraifft archwilio nodiadau'r cleifion
- Datblygu'r polisiau a'r disgrifiadau swydd presennol
- Mireinio'r rolau er mwyn dangos cyfrifoldebau rheoli arweinwyr tîm

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Neat Teeth Orthodontics yn cynnig gwasanaethau deintyddol orthodontig i gleifion yn Abertawe a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau orthodontig a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gan y practis dîm sy'n cynnwys chwe orthodontydd, tri therapydd – un o'r rhain yw rheolwr y practis – deg nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant a saith aelod o staff derbynfa. Mae pump o staff y dderbynfa hefyd yn nyrsys deintyddol cymwys.

Mae Neat Teeth Orthodontics yn bractis cymysg sy'n cynnig gwasanaethau orthodontig preifat a gwasanaethau ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod Neat Teeth Orthodontics yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd lefel boddhad y cleifion a ddangoswyd gan holiadur AGIC a holiadur mewnol y practis yn uchel iawn.

Roedd y practis wedi gwella'r cyfleusterau ar gyfer preifatrwydd y cleifion yn ddiweddar drwy greu ystafell ddynodedig newydd ar gyfer trafodaethau cyfrinachol. Gwelsom fod systemau cynhwysfawr ar waith ar gyfer ymateb i adborth a chwynion gan y cleifion, ond mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y broses gwyno ar gyfer cleifion preifat yn cael ei harddangos yn glir.

Cyn ein harolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau orthodontig a ddarperir yn y practis. Daeth cyfanswm o 26 o holiaduron wedi'u cwblhau i law. Roedd y mwyafrif ohonynt wedi cael eu cwblhau gan unigolion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers o leiaf flwyddyn.

Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog. Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Cyfathrebu gwych ac yn groesawgar iawn. Gwaith o'r radd flaenaf, allet ti ddim gofyn am fwy"

"Gofal ardderchog a staff cyfeillgar iawn. Roeddwn yn teimlo'n rhan o'r driniaeth ac yn cael fy nhrin ag urddas"

"Rwyf wastad wedi teimlo bod y gofal a'r gwasanaeth yn ardderchog"

"Rwy'n hynod ddiolchgar i'r staff am y gwasanaeth rwyf wedi ei gael ganddynt"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, ond ni chrybwyllwyd unrhyw welliannau.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un o'r cleifion ond un a gwblhaodd holiadur fod y tîm orthodontig wedi sôn wrthynt am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod gwybodaeth am hybu iechyd ar gael yn y brif dderbynfa a'r ardaloedd clinigol er mwyn hybu'r angen i'r cleifion fod yn gyfrifol am eu hiechyd a hylendid y geg eu hunain. Roedd y dderbynfa'n cynnwys arddangosfa ar y wal a oedd yn dangos lefel y siwgr mewn diodydd meddal cyffredin ac yn argymhell dŵr yfed ar gyfer iechyd y geg.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' hefyd i'w weld a oedd yn cadarnhau'r pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg¹.

Roedd y sampl o gofnodion y cleifion a adolygwyd gennym yn dangos bod deiet a hylendid y geg yn cael eu trafod â'r holl gleifion.

Gofal ag urddas

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom staff y dderbynfa yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar, proffesiynol a llawn parch. Roedd gan y practis ystafell ddynodedig yn y swyddfa gefn er mwyn ateb galwadau ffôn. Mae hyn yn galluogi staff y dderbynfa i siarad â'r cleifion heb i neb darfu arnynt, gan gyfrannu at yr awyrgylch croesawgar a llonydd a welsom ar ddiwrnod yr arolygiad.

¹ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Roedd y practis wedi ail-ddylunio'r ardal aros er mwyn creu ystafell newydd y tu ôl i'r brif dderbynfa yn benodol ar gyfer trafodaethau cyfrinachol â chleifion. Agorwyd yr ystafell a oedd newydd ei dodrefnu yn swyddogol ar ddiwrnod ein harolygiad. Gwnaethom awgrymu y byddai'n fuddiol i'r cleifion pe bai arwydd yn cael ei arddangos yn y dderbynfa yn dangos bod cyfleuster ar gyfer trafodaethau cyfrinachol ar gael.

Nid oedd naw egwyddor² y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros, yn unol â'r canllawiau yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod systemau digonol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y wybodaeth am gleifion. Roedd ffeiliau papur yn cael eu cadw'n ddiogel dan glo mewn cabinet a oedd mewn ystafell y gellid ei chloi yng nghefn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael i'r cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth (cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny). Gwnaethant hefyd ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a bod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau orthodontig preifat ac ar ran y GIG. Roedd gwybodaeth am y ffioedd ar gyfer triniaeth orthodontig breifat ar gael

² Mae naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu bod yr egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

wrth ddesg y dderbynfa, a oedd yn cynnwys opsiynau cyllid i rannu cost y taliadau dros gyfnod penodol o amser. Nid oedd disgwyl i gleifion a oedd yn gymwys i gael triniaeth orthodontig gan y GIG dalu am eu triniaeth.

Gwelsom gopi o'r pecyn gwybodaeth a ddarperir i bob claf preifat newydd. Roedd yn cynnwys crynodeb o'r chwe orthodonydd (addysg, hyfforddiant a meysydd diddordeb), a thafleini ar y dyfeisiau orthodontig amrywiol sydd ar gael.

Roedd Taflen Wybodaeth y Practis ar gael i gleifion yn y dderbynfa ac ar wefan y practis. Dywedwyd wrthym fod y daflen yn cael ei diweddarau'n rheolaidd pan fydd newidiadau i'r staff a'i bod yn cael ei diweddarau i adlewyrchu'r lefelau staffio presennol. Roedd y wefan yn cynnwys gwybodaeth am amseroedd triniaethau, mathau o fframiau dannedd a ffotograffau 'cyn ac ar ôl gosod' ar gyfer dwy astudiaeth achos a oedd yn dangos canlyniadau'r driniaeth orthodontig.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion ond un a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd y staff wrthym os nad oedd claf yn gallu siarad na deall Saesneg, y gallai ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn os oedd angen. Dywedwyd wrthym mai dim ond dwywaith roedd y practis wedi gorfod defnyddio'r cyfleuster hwn.

Roedd y wybodaeth yn y dderbynfa yn Saesneg yn bennaf, ond dywedwyd wrthym y gellid argraffu cyfieithiad Cymraeg ar gyfer peth o'r llenyddiaeth pe bai'r cleifion yn gofyn amdano.

Roedd dolen sain newydd ei gosod yn y practis er mwyn cynorthwyo cleifion â chymhorthion clyw. Roedd arwydd yn dangos y cyfleuster hwn i'w weld yn glir ar ddesg y dderbynfa.

Roedd y sampl o gofnodion y cleifion a adolygwyd gennym yn dangos tystiolaeth o gynllun triniaeth ysgrifenedig. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion ond un a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Nodwyd gennym fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedwyd wrthym mai yn anaml yr oedd yr apwyntiadau'n para'n hirach na'r amser dynodedig, ond pe bai unrhyw oedi, y byddai'r cleifion yn cael gwybod am hynny ar lafar gan staff y dderbynfa. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis newydd ddechrau ystyried gosod iPad yn y dderbynfa er mwyn rhoi'r opsiwn i'r cleifion gofrestru'n electronig yn hytrach na mynd i ddesg y dderbynfa.

Dywedodd ychydig yn llai na chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Mae neges peiriant ateb y practis yn rhoi'r rhif ffôn symudol y tu allan i oriau ac mae'r rhif wedi'i gynnwys yn y Daflen Wybodaeth i Gleifion. Dywedwyd wrthym, gan fod y practis yn cynnig triniaethau orthodontig yn hytrach na deintyddiaeth gyffredinol, fod y cleifion ond yn galw'r rhif am gyngor yn hytrach na thriniaeth frys.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom fod yr opsiynau triniaeth a'r cynllun triniaeth y cytunwyd arno wedi cael eu trafod â phob claf a'u cofnodi yn y nodiadau

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan Neat Teeth yn cyd-fynd â'r datganiad o ddiben³.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. Golygai hyn fod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

³ Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, y triniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir. Am ragor wybodaeth ewch i agic.org.uk

Roedd y practis ar ail lawr adeilad pwrpasol ac roedd ganddo ddigon o le i gleifion â chymhorthion symudedd, cadeiriau olwyn neu gadeiriau gwthio. Roedd hyn yn cynnwys lifft mawr, drysau llydan a thoiled i gleifion ag anableddau.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd y practis yn arddangos poster Gweithio i Wella y GIG⁴ yn y dderbynfa er mwyn dangos y broses gwyno ar gyfer cleifion y GIG. Roedd hysbysiad gwybodaeth yn cael ei arddangos ar gyfer cwynion gan gleifion preifat a oedd yn amlinellu'r egwyddorion allweddol y byddai'r practis yn eu dilyn, er enghraifft, 'byddwn yn dangos gwasanaeth cwsmeriaid da'. Nid oedd gwybodaeth am y broses go iawn ar gyfer gwneud cwyn yn cael ei harddangos nac ychwaith wybodaeth megis terfynau amser ac â phwy y dylid cysylltu. Fodd bynnag, gwelsom y wybodaeth angenrheidiol yn y polisi cwynion llawn, a oedd yn enwi'r prif dderbynydd fel yr arweinydd dynodedig ar gyfer pob cwyn gan glaf.

Er nad yw'r practis yn cael cwynion yn rheolaidd, gwelsom dystiolaeth o gofnodlyfr cwynion cynhwysfawr a oedd yn cynnwys categori'r cwyn (parcio, rhestrau aros, clinigydd ac ati), dull y gŵyn (ar lafar, dros y ffôn, drwy e-bost neu gyfryngau cymdeithas) a manylion y pryder ynghyd â'r cam gweithredu a gymerwyd. Gwnaethom awgrymu y byddai'n fuddiol cynnwys dyddiad datrys y gŵyn a dywedwyd wrthym fod y practis eisoes wedi bod yn ystyried hyn.

Dywedwyd wrthym y gofynnir i bob claf gwblhau holiadur boddhad cleifion pan gaiff ei driniaeth ei chwblhau a chaiff y canlyniadau eu coladu a'u dadansoddi bob mis. Mae'r holiadur yn cynnwys deg o gwestiynau sy'n cynnwys 'pa mor fodlon ydych chi ar eich gwên newydd' a 'safon y driniaeth a gafwyd'. Gwnaethom fwrw golwg dros ganlyniadau 2018 a 2019, a oedd yn dangos lefelau da iawn o foddhad cleifion ar draws y deg o gwestiynau allweddol. Roedd y mwyafrif helaeth o'r cleifion yn fodlon iawn, roedd rhai yn fodlon ac nid oedd bron yr un ohonynt yn anfodlon. Roedd adborth gan gleifion a geirdaon ar ffurf fideo ar gael ar wefan y practis.

⁴ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn adolygu'r meysydd i'w gwella a nodir yn yr holiaduron yn rheolaidd ac yn gwneud newidiadau os oes modd. Yn y gorffennol, mae hyn wedi cynnwys neilltuo'r maes parcio i'r cleifion yn unig yn hytrach na'r cleifion a'r staff mewn ymateb i bryderon ynghylch y diffyg manau parcio. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried ychwanegu blwch awgrymiadau yn y dderbynfa fel ffordd ychwanegol o gael adborth gan gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth am y broses gwyno ar gyfer cleifion preifat yn cael ei harddangos yn glir yn y dderbynfa.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym fod Neat Teeth Orthodontics yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd safle'r practis yn fodern ac wedi'i gynnal a'i gadw i safon uchel. Roedd prosesau cynhwysfawr ar waith ar gyfer diogelwch tân a oedd yn cynnwys gwiriadau dyddiol a oedd yn cael eu cofnodi'n dda at ddibenion archwilio.

Dangoswyd proses drylwyr ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol a gwelsom dystiolaeth dda o brosesau cadarn a gwybodaeth y staff ynghylch rheoli heintiau.

Roedd amrywiaeth o archwiliadau eisoes ar waith a gwnaethom nodi rhai archwiliadau ychwanegol y dylai'r practis eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod y cleifion mor ddiogel â phosibl.

Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd gennym o safon dda, ond gwnaethom nodi rhai meysydd y gellir eu gwella er mwyn sicrhau bod gwybodaeth lawn yn cael ei chofnodi am bob claf.

Gofal diogel: Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y practis ar un lefel ar ail lawr adeilad pwrpasol, ac roedd yn ymddangos ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol. Wrth fynd o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw rwystrau amlwg. Roedd y dderbynfa'n fawr ac yn gyfforddus gyda dodrefn modern mewn cyflwr ardderchog. Roedd gan y practis ardaloedd staff dynodedig, gan gynnwys ardal newid â loceri i gadw eiddo personol, toiled a chegin. Gwelsom fod dŵr wedi achosi peth difrod arwynebol i deils y nenfwd o ganlyniad i lifogydd a dywedwyd wrthym fod y practis eisoes wedi trefnu'r gwaith atgyweirio.

Roedd naw 'pod' triniaeth orthodontig mewn clinig agored mawr a deintyddfa breifat i un claf. Gwelsom fod y stolion i gleifion yn yr ardaloedd triniaeth ar gastorau symudol a gwnaethom awgrymu efallai y byddai'r practis am ystyried

prynu mwy o gadeiriau sefydlog i gleifion neu berthnasau ag anawsterau symudedd er mwyn lleihau'r risg y byddai rhywun yn llithro oddi ar y stôl.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn" neu'n "gymharol lân.

Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau o amgylch y practis a bod yr offer hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân cyfredol ac roedd gan y practis bennaeth tân dynodedig a oedd yn cael ei gynorthwyo gan ddirprwy. Roedd y pennaeth tân yn gwirio rhwystrau i allanfeydd tân bob dydd a gwelsom ffeil archwilio diogelwch tân a oedd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ac yn cael ei diweddarau bob dydd. Gwelsom gofnodion o ymarferion gwagio'r adeilad pe bai tân a gwiriadau wythnosol ar larymau tân a goleuadau tân. Roedd dwy allanfa dân ar ddau ben y clinig ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymddangos yn wybodus am yr hyn y dylid ei wneud pe bai tân. Cynhaliwyd yr asesiad risg tân blynyddol fel rhan o'r asesiad risg amgylcheddol cyffredinol ac roedd contract gwasanaeth ar waith ar gyfer cynnal a chadw offer a dyfeisiau diffodd tân.

Roedd pecyn cymorth cyntaf wedi'i gynnal a'i gadw'n dda mewn cwpwrdd a oedd yn hawdd ei gyrraedd. Roedd cofnodion y staff a adolygwyd gennym yn dangos bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf. Roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos yn ffreutur y staff.

Roedd cofnodion y staff a adolygwyd gennym yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddadebru cardio-anadlol. Roedd gan y practis y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁵.

⁵ Nod y Cyngor Dadebru (y DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell bwrpasol i ffwrdd o'r ardaloedd clinigol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁶. Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus. Gwnaethom adolygu'r cofnodlyfrau ac roeddent wedi'u cadw'n dda ar gyfer peiriannau awtoclaf⁷ a'r peiriant golchi a diheintio. Gwelsom fod rhaglen cynnal a chadw ddyddiol glir a oedd yn cynnwys rhestr wirio ddyddiol a oedd mewn man amlwg iawn ym mhob deintyddfa. Roedd offerynnau'n cael eu trosglwyddo'n briodol rhwng y deintyddfeydd a'r ardal ddihalogi gan ddefnyddio blychau offerynnau glân a brwnt a oedd wedi'u labelu'n glir. Wrth i ni adolygu'r ystafell ddihalogi, gwelsom fod y chwyddwydr a oedd yn cael ei ddefnyddio i arolygu offerynnau yn gymharol fach a gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried gosod golau chwyddo ar y wal mwy o faint ar gyfer arolygu offerynnau.

Gwelsom fod polisi rheoli heintiau ar waith a'i fod wedi cael ei lofnodi gan yr holl staff er mwyn dangos eu bod wedi'i ddarllen. Gwelsom hefyd fod poster hylendid dwylo yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r practis ac roedd yr amgylchedd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda er mwyn rheoli heintiau yn effeithiol. Gwnaethom siarad â'r brif nyrs â chyfrifoldeb am reoli heintiau, a ddangosodd fod ganddi wybodaeth a sgiliau arwain ardderchog yn y maes hwn a oedd yn cynnwys archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd.

Gwelsom fod biniau offer miniog ar y waliau a oedd wedi'u labelu'n gywir ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'r protocol o ran offer miniog. Gwnaethom gynghori'r practis y byddai'n fuddiol arddangos poster yn ymwneud ag anafiadau i'r staff a rhoddwyd hyn ar waith ar ddiwrnod y'r arolygiad.

⁶ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol

⁷ Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio ager dirlawn pwysedd uchel

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel y tu allan i adeilad y practis nes iddo gael ei gasglu gan y contractwr gwastraff.

Roedd cofnodion y staff a adolygwyd gennym yn dangos bod y staff wedi cael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis gynllun argyfwng meddygol clir ar waith a oedd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Roedd gan yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth dda am yr hyn y dylid ei wneud pe bai argyfwng meddygol. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardio-anadlol (CPR).

Roedd meddyginiaethau brys yn cael eu storio mewn cwpwrdd y gellid ei gloi. Roedd yr holl gyffuriau brys yno ac roeddent o fewn eu dyddiad defnyddio. Gwelsom gofnodlyfrau a oedd yn cael eu cadw er mwyn cofnodi'r defnydd o gyffuriau brys a'u dyddiad dod i ben. Nid oedd unrhyw feddyginiaethau presgripsiwn yn cael eu rhagnodi yn y practis. Ni roddwyd gwybod i ni ble mae'r practis yn cofnodi pryderon am adweithiau niweidiol i gyffuriau a gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried ychwanegu colofn ar gyfer adweithiau negyddol i gyffuriau brys yn y cofnodlyfr.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd polisi diogelu ar waith ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall mai'r perchennog a'r prif orthodontydd oedd yr arweinydd diogelu. Dywedodd y staff hefyd y gallent roi gwybod i reolwr y practis am unrhyw bryderon diogelu ac roeddent yn hyderus y byddai camau gweithredu yn cael eu cymryd. Roedd cofnodion y staff a adolygwyd gennym yn dangos bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod yr ardaloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol o safon uchel a oedd yn ymddangos yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Dywedodd y staff wrthym fod gan

y practis broses sefydlu ar gyfer aelodau newydd o'r tîm clinigol er mwyn rhoi hyfforddiant ar yr offer.

Daethom i'r casgliad bod trefniadau effeithiol ar waith gan y practis i ddefnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Daethom i'r casgliad hwn gan fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol am ddefnyddio offer pelydr-X ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom fod y rheolau lleol⁸ yn cael eu harddangos ger yr offer pelydr-X i nodi'r cyfarwyddiadau gwaith allweddol, er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu hamlygu i'r offer pelydr-x cyn lleied â phosibl.

Gwnaethom siarad â'r arweinydd diogelu rhag ymbelydredd a ddangosodd fod ganddo wybodaeth ardderchog am y ffolder ymbelydredd, a oedd wedi'i drefnu'n dda gyda chofnodlyfrau cynhwysfawr ar gael a chofnodion hyfforddiant cyfredol. Roedd yr holl radiograffau wedi'u cofnodi ynghyd â'r cyfiawnhad.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff clinigol perthnasol wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio a'u bod yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁹ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2000¹⁰.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi'u cwblhau'n fel rhan o'r broses o fonitro sicrwydd ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth dynnu lluniau pelydr-X ac yn nodi lle y dylid gwneud gwelliannau. Roedd canlyniadau'r archwiliadau'n dangos bod bron pob un ohonynt wedi cyflawni gradd 1 (y radd orau).

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

⁸ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth. Bwriedir iddynt nodi'r cyfarwyddiadau gwaith allweddol er mwyn sicrhau bod staff yn dod i gysylltiad â'r offer pelydr-x cyn lleied â phosibl

⁹ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

¹⁰ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Roedd y datganiad o ddiben yn cael ei arddangos yn glir yn y practis ac roedd gan yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth dda am y ddogfen a'u cyfrifoldebau cysylltiedig.

Gwelsom fod triniaeth yn cael ei rhoi yn unol â rheoliadau Chymdeithas Orthodontig Prydain¹¹ a chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd y practis yn cynnal nifer o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i'r cleifion, er enghraifft achosion o groes-heintio, radiograffau a chanlyniadau cleifion newydd. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth o archwiliadau ar gyfer cofnodion clinigol. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gyflwyno hyn fel ffordd o wella ansawdd cofnodion y cleifion yn barhaus. Argymhellwn hefyd y dylai'r practis gwblhau archwiliad integreiddio rhoi'r gorau i smygu y Swyddfa Adolygu Cymheiriaid ar gyfer Archwiliadau Clinigol (CAPRO).

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ymestyn ei raglen archwilio er mwyn cynnwys archwiliadau o gofnodion clinigol ac archwiliad integreiddio rhoi'r gorau i smygu CAPRO yn benodol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod unrhyw adolygiadau ffurfiol gan gymheiriaid deintyddol yn cael eu cynnal. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried rhoi proses adolygu gan gymheiriaid ar waith ar gyfer yr orthodontyddion a'r nysys deintyddol er mwyn cefnogi a gwella eu sgiliau.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried gwneud cais am adnodd datblygu practisau deintyddiaeth Matrics Aeddfeddrwydd Deoniaeth Cymru. Mae'r 'Adnodd Matrics Aeddfeddrwydd' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i

¹¹Cymdeithas Orthodontig Prydain – <https://www.bos.org.uk/>

ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar y ffordd y maent yn gweithio.

Nid yw'r practis yn gwneud unrhyw waith ymchwil felly nid oedd polisi na gweithdrefn ar waith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis roi rhaglen ar waith i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid er mwyn cefnogi dysgu.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd system ffeilio ddiogel ar waith ar gyfer cofnodion papur lle y caiff cardiau cofnodion eu cadw am o leiaf wyth mlynedd ar gyfer cleifion preifat ac 11 o flynyddoedd ar gyfer cleifion y GIG. Roedd ffeiliau electronig megis ffotograffau digidol yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn yn cael eu gwneud oddi ar y safle yn rheolaidd.

Roedd nifer o bolisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi diogelu data. Golygai hyn fod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas mewn cysylltiad â'u gwaith o ddydd i ddydd.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion orthodontig y cleifion er mwyn asesu ansawdd y broses o gadw cofnodion. Ar y cyfan, roedd y nodiadau papur yn cynnwys digon o fanylion ac roeddem o'r farn eu bod o ansawdd da, er bod rhai enghreifftiau o lawysgrifen a oedd yn anodd ei deall. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried cyflwyno nodiadau cyfrifiadurol er mwyn helpu i sicrhau bod yr holl nodiadau'n hawdd eu darllen. Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol lle y dylid gwneud gwelliannau:

- Roedd yr hanes meddygol yn cynnwys rhai bylchau o ran y cwestiynau am alcohol a smygu

- Nid oedd y practis yn cynnal Archwiliadau Periodontol Sylfaenol¹² ar gyfer y cleifion, felly nid oedd unrhyw gofnodion o'r rhain
- Roedd yr hanes meddygol yn cael ei gofnodi ar ddechrau'r driniaeth ond nid oedd yn cael ei ddiweddarau yn ystod y driniaeth
- Er y ceir cydsyniad pob claf drwy ffurflen cydsynio i driniaeth fewnol, gwelsom nad oedd ffurflen gydsynio'r GIG (FP17DCO) yng nghofnodion cleifion y GIG. Pan wnaethom sôn wrth staff y practis am y mater hwn, dywedwyd wrthym y byddent yn mynd i'r afael ag ef ar unwaith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau y caiff y cofnodion deintyddol eu diweddarau er mwyn cofnodi'r canlynol: Alcohol a smygu yn yr hanes meddygol, hanes meddygol yn ystod cwrs o driniaeth ac archwiliadau periodontol sylfaenol.

¹² Archwiliad clinigol o'r periodontiw (deintgig) yw archwiliad periodontol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd tystiolaeth gref i ddangos bod diwylliant ac amgylchedd gwaith cadarnhaol yn Neat Teeth Orthodontics lle mae'r staff yn hapus yn eu rolau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Gwelsom fod Rheolwr y Practis yn cydbwysu portffolio eang o gyfrifoldebau rheoli a chlinigol a nodwyd y potensial i ddiffinio rolau rheoli'r arweinwyr tîm yn ffurfiol.

Gwnaethom nodi bod angen i'r practis ychwanegu mwy o fanylion at y polisïau a'r disgrifiadau swydd presennol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r practis yn eiddo i'r prif orthodontydd ac yn cael ei reoli gan reolwr practis a gefnogir gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol. Mae dau arweinydd tîm dynodedig yn y timau o nyrsys deintyddol a phrif dderbynnydd. Dywedwyd wrthym fod pump o chwe aelod o staff y dderbynfa hefyd yn nyrsys orthodontig cymwys ac mae hyn yn galluogi'r practis i symud staff i rolau gwahanol er mwyn cyflenwi ac yn golygu nad oes angen staff asiantaeth.

Gwelsom fod gan y practis linellau atebolrwydd clir ar y cyfan a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus yn y gweithle ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Roedd yn amlwg o'n trafodaethau bod y staff yn ymfalchïo yn eu gwaith.

Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am bortffolio eang o waith a oedd yn cynnwys rheoli'r staff a gwaith clinigol fel therapydd orthodontig. Gwelsom mai rheolwr y practis oedd rheolwr llinell cyffredinol yr holl staff. Dywedwyd wrthym fod y practis eisoes yn ystyried sut y gall ddatblygu rolau'r arweinwyr tîm ymhellach. Gwnaethom argymhell y dylid adolygu rôl yr arweinwyr tîm er mwyn cynnwys bod

yn rheolwyr llinell ffurfiol (gan gynnwys arfarniadau) ar gyfer unrhyw adroddiadau uniongyrchol. Bydd hyn yn rhoi cymorth ychwanegol i reolwr y practis ac yn gwella cadernid y busnes.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith sy'n anelu at sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod y polisiâu'n cael eu hadolygu bob blwyddyn ac yn cael eu rhannu â'r staff a oedd yn llofnodi pob polisi er mwyn dangos eu bod wedi ei ddarllen. Wrth adolygu'r polisiâu, gwelsom fod rhai enghreifftiau lle nad oedd aelodau o'r staff wedi llofnodi'r polisi ac nad oedd unrhyw drefniadau rheoli fersiynau na dyddiadau i ddangos pryd y cafodd y polisi gwreiddiol ei adolygu na phryd y cafodd unrhyw newidiadau eu gwnaed. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gyflwyno proses o gofnodi trefniadau rheoli fersiynau ar gyfer yr holl bolisiâu a chreu cofnodlyfr cyffredinol y mae'n rhaid i'r holl staff ei gwblhau bob blwyddyn er mwyn dangos eu bod wedi darllen y polisiâu.

Er bod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu pwrpasol ar waith, roedd rhai o'r polisiâu yn fyr iawn ar ffurf pwyntiau bwled. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis adolygu a datblygu'r polisiâu presennol er mwyn cynnwys mwy o fanylion a chyddestun. Yn yr un modd, gwelsom fod y disgrifiadau swydd ar gyfer y staff yn gryo iawn ar ffurf pwyntiau bwled. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddatblygu'r disgrifiadau swydd presennol er mwyn cynnwys mwy o fanylion, yn enwedig wrth ddangos cyfrifoldebau penodol rolau'r arweinwyr tîm.

Roedd y staff yn teimlo bod cyfathrebu yn y practis yn dda. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal o fewn y timau nyrsio er mwyn trafod materion clinigol. Roedd y cyfarfodydd tîm yn dilyn agenda sefydlog gynhwysfawr a oedd yn cynnwys iechyd a diogelwch, damweiniau a risgiau, pryderon cleifion a materion staff. Dywedodd pob un o'r aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn codi materion yn ystod cyfarfodydd tîm. Dywedwyd wrthym os nad oedd aelod o'r staff yn mynychu cyfarfod tîm, y byddai'n cael copi o gofnodion y cyfarfod ac y byddai'n rhaid iddo lofnodi ffurflen i ddangos ei fod wedi eu darllen. Wrth adolygu'r cofnodion gwelsom fod enghreifftiau lle nad oedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi i ddangos ei fod wedi gweld y cofnodion a'r camau gweithredu. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis sicrhau bod yn rhaid i bob aelod o'r staff nad yw'n mynychu cyfarfod staff lofnodi'r cofnodion yn ffurfiol.

Roedd tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd¹³ ar gael ar gyfer yr holl orthodontyddion sy'n gweithio yn y practis ac roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt yswiriant indemnio priodol ar waith. Roedd y practis hefyd yn arddangos tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol yn y dderbynfa.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gwblhau'r canlynol i atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu:

- Datblygu'r polisiau presennol er mwyn cynnwys mwy o fanylion a chyd-destun.
- Datblygu'r disgrifiadau swyddi er mwyn cynnwys mwy o fanylion, yn enwedig cyfrifoldebau penodol rolau'r arweinwyr tîm.
- Cyflwyno proses o gofnodi trefniadau rheoli fersiynau ar gyfer yr holl bolisiau a chreu cofnodlyfr cyffredinol y mae'n rhaid i'r holl staff ei gwblhau bob blwyddyn er mwyn dangos eu bod wedi darllen y polisiau.
- Sicrhau bod yn rhaid i bob aelod o'r staff nad yw'n mynychu cyfarfod staff lofnodi'r cofnodion yn ffurfiol.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisiau yn ymwneud ag adnoddau dynol ar waith yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys y polisi recriwtio staff, y polisi cyfle cyfartal a'r polisi chwythu'r chwiban. Gwelsom dystiolaeth o broses sefydlu ar gyfer staff newydd a dywedwyd wrthym fod hyfforddiant 'mewn swydd' parhaus yn cael ei ddarparu er mwyn cefnogi gweithwyr newydd. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl staff newydd yn cael copïau o'r polisiau a'r gweithdrefnau Adnoddau Dynol i'w darllen.

¹³ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Roedd cofnodion y staff y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys gwybodaeth cyn cyflogi angenrheidiol a oedd yn cynnwys contract cyflogaeth, geirdaon a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw'n teimlo eu bod yn cael cryn gymorth o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus a hyfforddiant parhaus. Ategwyd y farn hon gan y sampl o gofnodion hyfforddiant y staff a adolygwyd gennym a oedd yn dangos tystysgrifau lle roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rôl.

Ar ddiwrnod yr arolygiad nid oedd unrhyw gofnodion ar gael o arfarniadau'r staff yn ystod y 12 mis blaenorol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y practis wedi cefnu ar gofnodi arfarniadau'n ffurfiol ac wedi bod yn treialu dulliau anffurfiol eraill o arfarnu'r staff. Yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd y staff wedi cwblhau arfarniad hunanasesu cyn cael trafodaeth anffurfiol ddilynol â rheolwr y practis. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol iawn am y dull gweithredu hwn ac roeddent i gyd yn cofio cael trafodaeth am eu perfformiad er nad oedd wedi cael ei chofnodi. Gwnaethom argymhell os bydd y practis yn dilyn dull anffurfiol o arfarnu'r staff, yna y dylid cadw cofnod ysgrifenedig i ddangos pryd y cynhaliwyd y cyfarfod er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad unwaith bob 12 mis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw i ddangos pryd y caiff arfarniadau staff eu cwblhau er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad unwaith bob 12 mis.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Neat Teeth Orthodontics

Dyddiad arolygu: 25 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Neat Teeth Orthodontics

Dyddiad arolygu: 25 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael i'r cleifion.	Safonau Iechyd a Gofal 1.4 – Gofal ag Urddas; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, adran 19	Mae naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi cael eu rhestru a'u harddangos ar stondin ar ddesg y brif dderbynfa er mwyn i'r cyhoedd eu gweld.	Claire Ebley	Cwblhawyd
Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth am y broses gwyno ar gyfer cleifion preifat yn cael ei harddangos yn glir yn y dderbynfa.	Safonau Iechyd a Gofal 6.2 – Hawliau pobl; Rheoliadau	Mae'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos wedi cael ei diwygio er mwyn sicrhau ei bod yn fwy addas i'r cleifion. Rydym wedi rhestru'r holl ddulliau sydd ar gael o ran	Claire Ebley	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Deintyddiaeth Breifat, adran 21	sut i godi pryder, enwi cyswllt, yr hyn sy'n digwydd nesaf a therfynau amser.		

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Dylai'r practis ymestyn ei raglen archwilio er mwyn cynnwys archwiliadau o gofnodion clinigol ac archwiliad integreiddio rhoi'r gorau i smygu CAPRO yn benodol.	Safonau Iechyd a Gofal 3.1 – Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, adran 16	Fel yr awgrymwyd gennych, rydym yn bwriadu cwblhau archwiliad o'r cofnodion clinigol yn ystod y misoedd i ddod ac rydym wrthi'n pennu ein safonau. Yna, byddwn yn anelu at gynnal yr archwiliad eto bob blwyddyn. Rydym yn treialu proses o gadw nodiadau clinigol digidol ar hyn o bryd a fydd yn gwneud y broses archwilio yn haws yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi cwblhau archwiliad o'r ffordd y cofnodir radiograffau a'r adroddiadau dilynol ac wedi diwygio ein systemau yn unol â'n canfyddiadau. Nid oeddem yn bwriadu cynnal archwiliad integreiddio rhoi'r gorau i smygu am mai plant yw'r mwyafrif helaeth o'n cleifion. Ar y cyfan,	Claire Ebley	O fewn chwe mis
---	---	--	--------------	-----------------

		nid yw ein cleifion sy'n oedolion ifanc na'n cleifion sy'n oedolion yn smygu am fod hyn yn wrtharwydd ar gyfer triniaeth orthodontig. Fodd bynnag, rydym yn trafod deiet a ffyrdd o fyw â'n holl gleifion cyn iddynt gael triniaeth ac yn rhoi taflennu ar roi'r gorau i smygu os oes angen.		
Dylai'r practis roi rhaglen ar waith i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid er mwyn cefnogi dysgu.	Safonau Iechyd a Gofal 3.3 – Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi	Mae'r holl glinigwyr wedi cytuno i gynnal cyfarfod adolygu gan gymheiriaid anffurfiol bob tri mis, yn ogystal â'n cyfarfodydd staff misol. Bydd y gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn gwneud yr un peth. Rydym hefyd yn ymchwilio i'r Adnodd Matrics Aeddfedrwydd Deintyddol.	Claire Ebley	O fewn y tri mis nesaf
Dylai'r practis sicrhau y caiff y cofnodion deintyddol eu diweddarau er mwyn cofnodi'r canlynol: Alcohol a smygu yn yr hanes meddygol, hanes meddygol yn ystod cwrs o driniaeth ac archwiliadau periodontol sylfaenol.	Safonau Iechyd a Gofal 3.5 – Cadw cofnodion; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, adran 20	Rydym yn bwriadu ychwanegu blychau ticio ar gyfer y defnydd o alcohol a smygu at ein taflenni hanes meddygol cyn iddynt gael eu hargraffu eto. Byddwn yn nodi'r wybodaeth â llaw nes i hynny ddigwydd. Yn unol â'ch argymhellion, rydym hefyd wedi ymrwmo i gynnal archwiliad periodontol sylfaenol ar bob claf newydd.	Claire Ebley	Ar unwaith

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

<p>Dylai'r practis gwblhau'r canlynol i atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu'r polisïau presennol er mwyn cynnwys mwy o fanylion a chyd-destun. • Datblygu'r disgrifiadau swyddi er mwyn cynnwys mwy o fanylion, yn enwedig cyfrifoldebau penodol rolau'r arweinwyr tîm. • Cyflwyno proses o gofnodi trefniadau rheoli fersiynau ar gyfer yr holl bolisïau a chreu cofnodlyfr cyffredinol y mae'n rhaid i'r holl staff ei gwblhau bob blwyddyn er mwyn dangos eu bod wedi darllen y polisïau. • Sicrhau bod yn rhaid i bob aelod o'r staff nad yw'n mynychu cyfarfod staff lofnodi'r cofnodion yn ffurfiol. 	<p>Safonau Iechyd a Gofal – Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, adrannau 8 ac 17</p>	<p>Byddwn yn ystyried pob polisi yn ei dro dros y misoedd i ddod ac yn ei ddiwygio yn ôl yr angen.</p> <p>Mae ein disgrifiadau swydd wedi cael eu diwygio er mwyn rhoi mwy o fanylion ac rydym hefyd wedi datblygu rôl yr arweinydd tîm ac wedi ailysgrifennu'r disgrifiad swydd.</p> <p>Rydym wedi cyflwyno cofnodlyfr i'r staff ei lofnodi a chaiff dyddiadau pob diwygiad yn y dyfodol eu cofnodi ac ni chânt eu trosysgrifo.</p> <p>Bydd cofnodion cyfarfodydd staff yn cael eu hanfon drwy e-bost at bob aelod o'r staff nad yw'n bresennol er mwyn iddo eu darllen. Caiff hyn ei gofnodi ar y taflenni presenoldeb.</p>	<p>Claire Ebley</p>	<p>Ar unwaith</p>
<p>Dylai'r practis sicrhau bod cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw i ddangos pryd y caiff arfarniadau staff eu cwblhau er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad unwaith bob 12 mis.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal 7.1 – Y Gweithlu; Rheoliadau</p>	<p>Rydym wrthi'n diweddarau ein polisi ar arfarniadau staff er mwyn adlewyrchu dull gweithredu hyblyg, mwy modern, ond bydd pob aelod o'r staff yn cael adolygiad mwy ffurfiol bob blwyddyn, y</p>	<p>Claire Ebley</p>	<p>Ar unwaith</p>

	Deintyddiaeth Breifat, adran 17	caiff copi ohono ei lofnodi, ei ddyddio a'i storio yn y ffeiliau personél.		
--	------------------------------------	--	--	--

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Claire Ebley

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 01.08.2019